

# **Adroddiad Monitro Blynyddol 2023**

Cyhoeddedig: 5 Hydref 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

# Adroddiad Monitro Blynyddol 2023

## Cynnwys

1. Cyflwyniad	3
2. Cefndir	5
3. Methodoleg	6
4. Llygredd ffosfforws yn ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Bala	8
5. Adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol CSDd - 2006 - 2021	10
6. Cyflenwi tai	11
7. Canlyniadau	16
Atodiad 1 – Perfformiad Polisi Lleol	23
Atodiad 2 – Monitro Amcanion Gwerthuso Cynaliadwyedd	53
Atodiad 3 – Taflywybr Tai y CDLI 2023	101

Awdurdodwyd yr Adroddiad hwn gan Emlyn Jones (Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yng Nghyngor Sir Ddinbych).



Rhuthun, 5 Hydref 2023

# Adroddiad Monitro Blynyddol 2023

## 1. Cyflwyniad

Mae Adroddiadau Monitro Blynyddol (AMB) yn gyfrwng pwysig i asesu cyflawniad Amcanion Cynllun Datblygu Lleol (CDLI), effeithiolrwydd polisi lleol, yn ogystal â chynnydd o ran cyflawni datblygiad ar safleoedd a ddyrannwyd. Mae AMB 2023 yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023. Dyma'r 9fed adroddiad sydd wedi ei lunio ers mabwysiadu'r CDLI ym mis Mehefin 2013.

Nid oes unrhyw newid sylweddol ym mherfformiad polisi lleol o'i gymharu â chyfnodau monitro blaenorol. Mae angen i bolisiâu lleol fod yn destun 'adolygiad' yn bennaf lle maent yn gysylltiedig ag elfennau strategol y CDLI mabwysiedig er enghraifft cyflenwi tai yn flynyddol.

Yn Awst 2023, mae'r cyngor yn dal i aros am gyhoeddi'r Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 "Datblygiad, llifogydd ac erydu arfordirol", a drefnwyd yn wreiddiol i fod yn berthnasol yn swyddogol i'r broses o baratoi'r CDLI o'r 1af o Ragfyr 2021. Mae'r gohirio eisoes wedi achosi oedi o ran cadarnhau Strategaeth a Ffefrir y CDLI newydd 2018 i 2023 (Mai 2023) ac asesu safleoedd ymgeisiol.

Ar 21 Ionawr 2021 gosododd Cyfoeth Naturiol Cymru safonau ffosfforws newydd ar gyfer y naw Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) afonol yng Nghymru. Y nod yw gwella ansawdd y dŵr drwy leihau lefelau llwyth ffosfforws. Tra bod y Cyngor yn cefnogi'r ymagwedd 'niwtraled maeth' a gymrir gan Gyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas ag Asesiadau Rheoliadau Cynefin, cyflenwi tai newydd, cyfleusterau cymunedol ac adfywio, mae prosiectau yn parhau i wynebu oedi yn ne Sir Ddinbych. Fodd bynnag mae yna optimistaeth y bydd cydweithio gyda sefydliadau partner ym 'Mwrdd Rheoli Maethynnau Afon Dyfrdwy' yn galluogi datblygiad i ddigwydd mewn ardaloedd sy'n sensitif o ran ffosfforws.

## **Adroddiad Monitro Blynyddol 2023**

Dyma'r adroddiad monitro cyntaf sy'n ymdrin â pherfformiad polisi lleol a chyflawni cynigion datblygu y tu hwnt i gyfnod cynllun y CDLI mabwysiedig. Fel y nodwyd yn AMB 2022, ni ddarparodd CDLI 2006 i 2021 7,500 annedd dros y cyfnod o 15 mlynedd. Darparwyd 3,104 o anheddau yn unig – a oedd yn llawer is na'r targed. Nid oes cynnydd wedi bod yn y safle strategol allweddol ym Modelwyddan oherwydd pryderon ynglŷn â hyfywedd, gan gynnwys gosod isadeiledd angenrheidiol cyn dechrau unrhyw waith adeiladu ar y safle.

# Adroddiad Monitro Blynyddol 2023

## 2. Cefndir

Caiff Cynlluniau Datblygu Lleol eu paratoi gan Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLI) i siapio ac arwain cynigion datblygu i leoliadau cynaliadwy, ac yna cyflawni'r raddfa a'r math o dwf a nodwyd ar gyfer cyfnod y cynllun. Maent yn cynnwys, er enghraifft, strategaeth ofodol a thwf, polisïau lleol, dyraniad safle a fframwaith monitro. Mae CDLI yn hanfodol i sicrhau proses gyson a thryloyw o ran gwneud penderfyniadau mewn Rheoli Datblygu.

Mae Adroddiadau Monitro Blynyddol yn gyfrwng pwysig i asesu cyflawniad Amcanion CDLI, perfformiad polisi lleol, yn ogystal â chynnydd o ran cyflawni datblygiad ar safleoedd a ddyrannwyd. Mae fframweithiau monitro yn rhan sylfaenol o'r CDLI a hefyd yn destun archwiliad CDLI. Heblaw am fonitro perfformiad polisïau lleol, mae AMB hefyd yn adrodd ar effaith newidiadau mewn polisi cenedlaethol ar ddatblygiad mewn ardaloedd lleol.

Mabwysiadwyd CDLI 2006-2021 Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) ar 4 Mehefin 2013. Er ei fod y tu hwnt i gyfnod y cynllun, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ym Medi 2020 fod y CDLI mabwysiedig yn parhau yn berthnasol o ran gwneud penderfyniadau mewn Rheoli Datblygiad ac apeliadau cynllunio hyd nes y bydd CDLI newydd yn ei ddisodli; gweler 'Llythyr gan Lywodraeth Cymru' yn AMB CDLI CSDd 2021 Atodiad 1.

Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i gynhyrchu AMB ar gyfer eu CDLI priodol o dan rwymedigaethau Adran 76 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ac Adran 37 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005. Mae'n rhaid i bob AMB gael eu cyflwyno i LIC erbyn 31 Hydref bob blwyddyn, ac mae'n rhaid eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

# Adroddiad Monitro Blynyddol 2023

## 3. Methodoleg

Mae AMB 2023 yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023. Dyma'r 9fed adroddiad sydd wedi ei lunio ers 2013. Mae "Llawlyfr Cynlluniau Datblygu LIC Rhifyn 3" (Mawrth 2023) Pennod 8 yn amlinellu'r prif elfennau a'r dangosyddion cenedlaethol ar gyfer pob AMB. Yn ogystal â hynny, mae Pennod 7 CDLI CSDd 2006 – 2021 yn cynnwys y fframwaith monitro sy'n darparu'r templed ar gyfer y tablau asesu yn Atodiad 1 a 2. Mae'n nodi dangosyddion a ddiffinnir yn lleol, mae'n targedu ac yn cynllunio sbardunau adolygu i sicrhau monitro cyson dros oes y CDLI.

Lluniwyd y fframwaith monitro gan ystyried amcanion polisi, targedau rhaglenni a sail dystiolaeth a oedd yn gyfredol ar adeg paratoi'r CDLI. Gan fod y fframwaith monitro'n rhan o'r CDLI mabwysiedig, hyblygrwydd cyfyngedig iawn sydd yna o ran addasu dangosyddion unigol i unrhyw newidiadau mewn tystiolaeth empirig neu bolisi cenedlaethol. Er enghraifft, mae amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd LIC ar gyfer Sir Ddinbych yn llawer is na'r amcanestyniadau a ddefnyddiwyd i lunio'r CDLI. Cafodd Nodyn Cyngor Technegol 1 "Cyd-astudiaethau Argaeledd Tai" ei ddiddymu gan LIC; gan gynnwys y gofyniad i fonitro'r cyflenwad tir ar gyfer tai am 5 mlynedd.

Caiff perfformiad polisi lleol ac Amcanion Gwerthuso Cynaliadwyedd eu hasesu ar sail y wybodaeth sydd ar gael o wahanol ffynonellau: cofnodion cynllunio Rheoli Datblygu, ystadegau cenedlaethol ac arolygon safle dethol.

# Adroddiad Monitro Blynyddol 2023

Mae yna gyfyngiadau o ran y data a'r wybodaeth a ddefnyddiwyd i ddibenion monitro ac mae'n hanfodol i fod yn ymwybodol ohonynt cyn dod i unrhyw gasgliadau yn nhermau perfformiad polisi a'r angen am adolygiad cynllun:

1. Amser ac amllder casglu data: Caiff ymchwil empirig ac ystadegau eu cyhoeddi ar gyfer dyddiad neu gyfnod monitro penodol. Er enghraifft fe allai fod yna wahaniaeth rhwng casglu data ar gyfer blwyddyn galendr neu flwyddyn ariannol. Yn ogystal mae'n bosibl na fydd data yn cael ei gasglu yn flynyddol, neu fod dangosyddion yn cael eu diwygio i adlewyrchu amgylchiadau sy'n newid;
2. Bod yn ymwybodol o 'sicrwydd ansawdd' wrth ddefnyddio gwybodaeth a ddarperir gan drydydd parti. Nid dim ond gan awdurdodau y caiff ystadegau eu cyhoeddi ond hefyd gan fusnesau gydag amcan penodol mewn golwg; a
3. Gall amcanion polisi lleol gael eu gwrthbwyso gan ystyriaethau perthnasol yn ystod y broses o benderfynu ar gais.

# Adroddiad Monitro Blynyddol 2023

## 4. Llygredd ffosforws yn ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Bala

Ar 21 Ionawr 2021 gosododd Cyfoeth Naturiol Cymru safonau ffosforws newydd ar gyfer y naw Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) afonol yng Nghymru. Y nod yw gwella ansawdd y dŵr drwy leihau lefelau llwyth ffosforws, sydd tua 50% i 80% yn is na'r safonau blaenorol. Mae'r adroddiad asesu ar gydymffurfio gyda'r targedau ffosforws llymach wedi dangos fod tua 38% o'r dyfroedd a arolygwyd yn ardaloedd cydymffurfio "ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid" yn methu â chyrraedd y targedau.

Mae Rhan 6 "Asesu Cynlluniau a Phrosiectau" Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd) yn rhoi'r ddyletswydd ar Gyngor Sir Ddinbych, fel 'Awdurdod Cymwys' (h.y. y sawl sy'n gwneud penderfyniadau), i brofi a yw cynnig cynllunio'n debygol o gael effaith sylweddol ar amcanion cadwraeth nodweddion safle cymwys yn yr ACA cyn rhoi caniatâd.

Roedd CDLI Sir Ddinbych yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a mabwysiadodd ar y sail na fyddai'r cynllun lleol yn caniatáu ar gyfer cynigion cynllunio a allai effeithio'n andwyol ar unrhyw nodweddion safle cymwys. Ers i'r targedau newydd ar gyfer ffosforws gael eu cyflwyno ar ôl i'r CDLI gael ei fabwysiadu yn 2013, ni all Swyddogion ddibynnu ar Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y CDLI gwreiddiol i ddod i'r casgliad nad yw cynigion, sydd yn unol â pholisi lleol, yn effeithio'n sylweddol ar amcanion cadwraeth ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Bala. Felly mae'n rhaid i'r holl gynigion cynllunio ar gyfer tir sydd mewn ardal sydd wedi ei dynodi'n sensitif o ran ffosforws, neu ardal gydymffurfiaeth ffosforws, fod yn destun ARhC. Mae'r ardal sy'n sensitif oherwydd ffosforws yn cynnwys tua 42% o'r sir.



## **Adroddiad Monitro Blynyddol 2023**

Ym Medi 2022 fe ymunodd CSDd â'r Bwrdd Rheoli Maethynnau ar gyfer dalgylch Afon Dyfrdwy. Mae byrddau rheoli maethynnau yn bartneriaethau gwirfoddol, strategol a hirdymor gyda'r prif nod o sicrhau gwelliannau cyffredinol yn ansawdd dŵr a chyrraedd targedau cadwraeth ffosforws ar gyfer yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig priodol ar draws ffiniau awdurdodau lleol. Eu rôl yw i gydlynu camau gweithredu'r holl gyfranogwyr ac, felly, sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau prin.

Er bod cynnydd wedi ei wneud yn nhermau darparu cyngor proffesiynol ac arbenigedd technegol, mae ceisiadau cynllunio'n dal heb eu penderfynu neu'n cael eu gwrthod pan fo safle cais o fewn yr ardal sensitif i ffosforws. Mae'r oedi mewn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad preswyl newydd yn cael effaith ar uchelgais y Cyngor i fynd i'r afael ag anghenion tai lleol.

# Adroddiad Monitro Blynyddol 2023

## 5. Adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol CSDd - 2006 - 2021

Yn 2017 paratôdd y Cyngor Adroddiad Adolygu sydd wedi canfod yr angen i ddiwygio ei Gynllun Datblygu Lleol yn llawn. Mae'r materion a ystyrir yn yr adroddiad yn ddigon pwysig i gefnogi'r angen i baratoi CDLI diwygiedig.

Mae tair prif elfen yn y CDLI mabwysiedig sydd angen sylw arbennig wrth baratoi CDLI Newydd ar gyfer y Sir. Mae dwy elfen wedi eu hamlygu ar gyfer eu hadolygu yn Adroddiad Adolygu'r CDLI 2017 ac Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol.

1. Cyflenwi tai'r farchnad a thai fforddiadwy mewn lleoedd sydd eu hangen ar frys ar gyfer cymunedau lleol. Mae'n rhaid i dargedau newydd roi sylw i amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd diwygiedig Llywodraeth Cymru.
2. Mynd i'r afael ag anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr.
3. Adfywio canol trefi: Newidiadau i bolisi cenedlaethol ar arallgyfeirio canol trefi wrth ymateb i ddirywiad manwerthu ac effeithiau pandemig Covid 19 ar y defnydd o ganol trefi.

Profwyd oedi o ganlyniad i bandemig y Coronafeirws ond mae gwaith wedi parhau yn y cefndir pryd bynnag fo hynny'n bosibl. Yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf gwelwyd nifer o ofynion newydd y mae'n rhaid i'r CDLI eu diwallu gan gynnwys newidiadau mewn polisi cenedlaethol a chanllawiau. Mae hyn yn cynnwys Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 diwygiedig ar risg llifogydd sydd hefyd yn gofyn am ddiweddariad i Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd Strategol CSDd. Hefyd roedd angen diweddarau ychydig ar y sail dystiolaeth a baratowyd yn flaenorol. Cafodd Cytundeb Cyflawni diwygiedig ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ar 12 Rhagfyr 2022.

Mae CDLI newydd Sir Ddinbych 2018 - 2033 yn mynd rhagddo a chafodd y Strategaeth a Ffeifrir ei chymeradwyo gan y Cyngor ar 9 Mai 2023. Mae'r Cyngor yn gweithio tuag at y cam ymgynghori ffurfiol nesaf ar gyfer y CDLI sef y Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd. Bydd y Cynllun Datblygu Lleol i'w Archwilio gan y Cyhoedd yn cynnwys polisiâu a dyraniadau tir manwl a disgwylir y bydd yn destun ymgynghoriad yn ddiweddarach yn Hydref 2023.

# Adroddiad Monitro Blynyddol 2023

## 6. Cyflenwi tai

Paratowyd y CDLI mabwysiedig yn unol â “Chyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai” TAN 1. Roedd y ddogfen yn nodi'r angen i awdurdodau cynllunio lleol lunio Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai yn flynyddol a rhoi gwybod am y nifer o dai a gwblheir yn flynyddol yn erbyn y gofyniad am gyflenwad tir ar gyfer tai am 5 mlynedd. Ers 2015 mae'r Cyngor wedi methu dangos ei fod yn gallu cyrraedd y targed tai fel y nodwyd mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol. Mae paragraff 5.2 Adroddiad Adolygu'r CDLI (Rhagfyr 2017) yn nodi'r diffyg parhaus o gyflenwad tir ar gyfer tai am 5 mlynedd fel un o'r prif resymau dros adolygu'r CDLI mabwysiedig.

Dilëwyd TAN 1 LIC yn 2020; gan gynnwys y gofyniad gorfodol i lunio Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai a rhoi gwybod am ffigwr blynyddol cyflenwad tir ar gyfer tai yn yr AMB. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi parhau i lunio Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai oherwydd ei werth wrth fonitro cyfraddau cwblhau blynyddol a dosbarthiad gofodol datblygiadau. Bydd y wybodaeth hon yn dystiolaeth hanfodol ar gyfer llywio'r gwaith o lunio'r CDLI Newydd.

Mae “Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Argraffiad 3” (Mawrth 2020) LIC yn nodi'r dull newydd o fonitro cyflenwad tai drwy roi pwyslais sylweddol ar daflwybrau tai. Yn hytrach na chyfrif ffigwr cyflenwad tir ar gyfer tai 5 mlynedd, mae taflwybrau tai yn canolbwyntio ar gymhariaeth rhwng y Gyfradd Adeiladu Flynyddol a Ragwelir fel y nodir yn y CDLI mabwysiedig a'r gyfradd adeiladu flynyddol wirioneddol.

Nid oedd CDLI CSDd 2006-2021 yn cynnwys taflwybr tai, gan gynnwys Cyfradd Adeiladu Flynyddol a Ragwelir wedi ei mireinio, a fyddai'n creu pwynt cyfeirio ar gyfer unrhyw gymhariaeth yn y dyfodol. “Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, dylai'r Awdurdodau Cynllunio Lleol hynny a fabwysiadodd eu CDLI cyn i'r LICD (Argraffiad 3) gael ei gyhoeddi, ddefnyddio dull y Gyfradd Flynyddol Gyfartalog fel y prif ddangosydd i fesur faint o dai a gyflenwyd, a chynnwys y dull taflwybr mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol” (cyf. paragraff 8.14 ‘Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, Argraffiad 3’). Y Gyfradd Flynyddol Gyfartalog yw 500 uned y flwyddyn i'w cyflenwi yn Sir Ddinbych (cyf. CDLI CSDd, Tabl Graddoli, t.130).

# Adroddiad Monitro Blynyddol 2023

Mae tabl 1 yn rhestru'r rhannau sy'n ffurfio'r sail ar gyfer y cyfrifiadau cyflenwad tir ar gyfer tai newydd. Mae Atodiad 3 yn cyflwyno gwybodaeth fanwl ar gyfer Sir Ddinbych yn 2022 / 2023.

Tabl 1: Rhannau o gyflenwad tai

Rhan	Sylwadau
Wedi eu cwblhau	Mae'r ffigur yn cynnwys unrhyw dai y cofnodwyd eu bod wedi eu cwblhau yn yr adroddiad monitro. Mae hyn yn cynnwys datblygiad ar safleoedd a ddyrannwyd a hap-safleoedd, beth bynnag fo'u maint a'u math. Ers 2018, mae CSDd hefyd yn cyfrif y nifer sydd wedi eu cwblhau tuag at y gofyniad tai ar gyfer y CDLI Newydd.
Dyraniadau safleoedd ar gyfer datblygiad preswyl	Mae'r rhain yn safleoedd sydd wedi eu dyrannu yn y CDLI mabwysiedig, 2006 i 2021, ond nad oes ganddynt ganiatâd cynllunio. Mae Taflwybr Tai CSDd, gweler Atodiad 3, yn nodi pryd mae'r Cyngor yn disgwyl eu bod yn cael eu darparu.
Ymrwymadau / Banc Tir	Mae'r rhain yn safleoedd ar gyfer datblygiad preswyl sydd wedi cael caniatâd cynllunio nad yw wedi ei weithredu eto. Mae Taflwybr Tai CSDd, gweler Atodiad 3, yn nodi pryd mae'r Cyngor yn disgwyl eu bod yn cael eu darparu.

# Adroddiad Monitro Blynyddol 2023

Rhan	Sylwadau
Hap-safleoedd (tir)	<p>Mae'r rhain yn barseli o dir nad ydynt wedi eu dyrannu'n benodol ar gyfer datblygiad preswyl yn y CDLI mabwysiedig, ond gellir eu cyflwyno ar gyfer tai yn ystod oes y CDLI. Maent yn cael eu dosbarthu fel rhai 'mawr' (10 uned neu fwy), safleoedd bach (llai na 10 uned), neu rai sydd wedi eu trawsnewid.</p> <p>Mae cyfrifiadau cyflenwad tir ar gyfer tai yn cynnwys lwfans ar gyfer hap-safleoedd sy'n seiliedig ar lefelau cyflenwi yn y gorffennol. (Gweler Atodiad 3, tabl 2) Y ffigwr cyfartalog 5 mlynedd ar gyfer cyflenwi hap-safleoedd yw 90 uned y flwyddyn. Fodd bynnag, mae wedi ei ostwng i 50 uned y flwyddyn yn Strategaeth Ddrafft a Ffeirir y CDLI Newydd ac felly mae wedi ei gynnwys yn y taflwybr tai.</p>


## Adroddiad Monitro Blynyddol 2023

Ystyriwyd cyflenwad blynyddol o dai yng ngoleuni cyfnodau dau gynllun ers 2018: (1) y CDLI mabwysiedig 2006 i 2021, a (2) y CDLI Newydd 2018 i 2033. Er na chafodd ei ddatblygu ddigon er mwyn bod yn berthnasol i benderfyniadau cynllunio, mae Strategaeth a Ffefrir y CDLI Newydd yn cynnig lefel llawer is o dwf amcanestynedig na'r un sydd yn y CDLI mabwysiedig. Mae hyn wedi arwain at Gyfradd Gyfartalog Flynyddol is ar gyfer y CDLI Newydd, h.y. 218 uned y flwyddyn. Felly mae yna wahaniaeth mawr yn y gofyniad tai blynyddol rhwng y CDLI mabwysiedig (500 y flwyddyn) a'r CDLI newydd (218 y flwyddyn). Barn y Cyngor yw bod y Gyfradd Gyfartalog Flynyddol ar gyfer y CDLI Newydd yn cyflwyno lefel resymol o dwf, sy'n seiliedig ar "Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd 2017" LIC.

Mae Siart 1 yn dangos y nifer gwirioneddol a gwblhawyd, a'r nifer disgwyliedig mewn cymhariaeth â'r ddwy Gyfradd Gyfartalog Flynyddol ar gyfer y cyfnod o 2018 i 2026. Dylid nodi na lwyddodd y nifer gwirioneddol a gwblhawyd i gyrraedd targed Cyfradd Flynyddol Gyfartalog y CDLI mabwysiedig mewn unrhyw flwyddyn, ond mae wedi mynd y tu hwnt i darged Cyfradd Flynyddol Gyfartalog y CDLI Newydd ers 2019. Mae cyfanswm y cyflawniadau a ragwelir yn gostwng yn y blynyddoedd nesaf oherwydd bod mwy o gyfyngiad yn y nifer o ddyraniadau safleoedd preswyl heb eu datblygu sydd ar gael yn y CDLI mabwysiedig. Yn ystadegol, mae'r Cyngor yn disgwyl cyfradd gyfartalog flynyddol o 287 annedd wedi eu cwblhau yn y cyfnod o 2018 i 2026.

# Adroddiad Monitro Blynyddol 2023

Siart 1: Tai wedi eu cwblhau – gwirioneddol a disgwyliedig



# Adroddiad Monitro Blynyddol 2023

## 7. Canlyniadau

Mae'r Cyngor wedi paratoi Adroddiadau Monitro Blynyddol ers 2014. Nid oes unrhyw newid sylweddol ym mherfformiad polisi lleol o'i gymharu â chyfnodau monitro blaenorol. Mae angen i bolisiâu lleol fod yn destun 'adolygiad' yn bennaf lle maent yn gysylltiedig ag elfennau strategol y CDLI mabwysiedig er enghraifft cyflenwi tai yn flynyddol neu nid yn unol â newidiadau i bolisi cenedlaethol, er enghraifft ymagwedd i ddatblygu canol trefi. Mae yna ddisgwyliad cyfyngedig y bydd perfformiad y polisiâu lleol hynny'n newid hyd nes y bydd y CDLI mabwysiedig yn cael ei ddisodli gan y CDLI newydd.

Mae LIC yn defnyddio nifer o 'ddangosyddion craidd' y mae'n eu hystyried yn hanfodol i asesu effaith y polisi cenedlaethol ym mhob ardal awdurdod lleol. Maent wedi eu nodi yn nhabl 29 'Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, Argraffiad 3 (Mawrth 2020)' LIC, a rhaid adrodd arnynt ym mhob Adroddiad Monitro Blynyddol. Dylid nodi y mabwysiadwyd CDLI Sir Ddinbych cyn i'r 'Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, Argraffiad 3' gael ei gyhoeddi, sy'n golygu nad yw'n cynnwys yr holl elfennau mae LIC yn gofyn am eu monitro.



# Adroddiad Monitro Blynyddol 2023

Tabl 2: Dangosyddion Tabl 29 Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (2020) LIC

Dangosydd	Canlyniad 2022/23
Nifer ychwanegol net yr anheddau fforddiadwy ac anheddau'r farchnad a adeiladwyd yn ardal y CDLI.	Tai ychwanegol net: 256 uned Tai fforddiadwy ychwanegol net: 83 uned
Dosbarthiad gofodol y datblygiadau tai.	Roedd dosbarthiad gofodol y datblygiadau tai yn unol â Strategaeth y CDLI.
Lefel flynyddol y tai a gwblhawyd wedi ei monitro yn erbyn y Gyfradd Adeiladu Flynyddol a Ragwelir. Cyfanswm cronol y tai a gwblhawyd wedi ei fonitro yn erbyn y gyfradd cwblhau tai gronnol ddisgwyliedig. Y lefel o dai fforddiadwy a gwblhawyd wedi ei fonitro yn ôl targed trosfwaol y cynllun. Deiliadaeth tai fforddiadwy wedi eu cwblhau.	Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006-2018 yn 2013; cyn i'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, Argraffiad 3 gael ei gyhoeddi. Mae Atodiad 3 Adroddiad Monitro Blynyddol CSDd yn nodi gwybodaeth fanwl ynglŷn â'r taflwybr tai ar gyfer y Sir. Fodd bynnag, nid yw'r CDLI mabwysiedig yn cynnwys taflwybr tai ac elfennau cysylltiedig. Dangosir data er gwybodaeth yn unig. Mae gwybodaeth fonitro am gyflenwad anheddau'r farchnad ac anheddau fforddiadwy i'w gweld yn Atodiad 1 'Perfformiad Polisi Lleol'.
Tir cyflogaeth a ddefnyddiwyd yn erbyn dyraniadau.	Mae Strategaeth y CDLI yn darparu 59.5 hectar o dir cyflogaeth newydd ar gyfer y cyfnod 2006 – 2021. Nid oes fawr o werth i fonitro'r targed o 59.5 hectar yn erbyn dyraniadau safleoedd perthnasol, gan nad oedd y dyraniadau tir na'r ffiniau safleoedd diwygiedig wedi eu gosod cyn mabwysiadu'r CDLI ym mis Mehefin 2013.
Twf swyddi.	Nid yw'r CDLI mabwysiedig yn cynnwys unrhyw dargedau ar gyfer twf swyddi yng nghyfnod y Cynllun.
Cyflawni'r polisi tai fforddiadwy – trothwyon a thargedau canrannol ar gyfer pob ardal is-farchnad.	Nid yw'r CDLI mabwysiedig yn cynnwys unrhyw wybodaeth ynglŷn â darparu tai fforddiadwy ar gyfer ardaloedd is-farchnad yn Sir Ddinbych.

# Adroddiad Monitro Blynyddol 2023

Dangosydd	Canlyniad 2022/23
Hyfywedd	Nid yw'r ACLI yn cofnodi gwybodaeth.
Cyfradd datblygiad ar ddyraniadau allweddol (tai a gwblhawyd yn gysylltiedig â thafwybrau graddol a chynlluniau isadeiledd, lle bo'n briodol).	Nid yw'r CDLI mabwysiedig yn cynnwys unrhyw wybodaeth am raddoli datblygiad a fyddai'n cael ei defnyddio at ddibenion monitro.
Darparu isadeiledd allweddol sy'n sail i strategaeth y cynllun.	Dim.
Cwblhau Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr er mwyn diwallu angen a nodwyd.	Fe wnaeth y Cyngor Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ar 28 Mawrth 2017. Mae Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr newydd wedi ei baratoi a'i gymeradwyo gan y Cyngor, a chafodd ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2021. Ar hyn o bryd mae'n aros i gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.
Graddfa / math y datblygiad agored iawn i niwed a ganiateir o fewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd C2.	Dim.

# Adroddiad Monitro Blynyddol 2023

Mae Tabl 3 yn rhoi trosolwg o'r dangosyddion sydd wedi deillio i gynorthwyo'n weledol gyda chyflwyno perfformiad polisi lleol.

Tabl 3: Dangosyddion perfformiad

Dangosydd	Sylwadau
<b>Coch</b>	Cyrhaeddodd y dangosydd polisi y trothwy ar gyfer cymryd camau gweithredu neu adolygu, a rhaid adolygu polisi lleol.
<b>Oren</b>	Cyrhaeddodd y dangosydd polisi y trothwy ar gyfer cymryd camau gweithredu neu adolygu, ond mae'n fater de minimis ac yn eithriad a gyfiawnheir.
<b>Gwyrdd</b>	Ni chyrraeddodd y dangosydd polisi'r trothwy ar gyfer cymryd camau gweithredu nac adolygu, sy'n golygu bod y polisi'n cyrraedd y targed.

## Adroddiad Monitro Blynyddol 2023

Mae Tabl 4 yn cyflwyno trosolwg o'r polisiâu lleol hynny a gyrhaeddodd y trothwy ar gyfer adolygu polisi; h.y. ni wnaethant gyflawni'r canlyniad a ddisgwyliwyd. Mae Atodiadau 1 a 2 yn cynnwys tablau monitro manwl ar gyfer perfformiad polisi lleol ac Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.

Datblygwyd fframwaith monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd i asesu'r cyd-destun amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol y mae'r CDLI yn gweithredu ynddo. Y disgwyliad yw bod y CDLI yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at fynd i'r afael â materion allweddol y Sir. Mae monitro Arfarniad o Gynaliadwyedd hefyd yn ystyried yn gyfannol effeithiau gwneud penderfyniadau ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig.

# Adroddiad Monitro Blynyddol 2023

Tabl 4: Polisiâu lleol i'w hadolygu yn seiliedig ar berfformiad.

Polisi Lleol	Sylwadau
CCC 1 – Diwallu anghenion tai'r Sir. CCC 4, CCC 8, CCC 9 – Cynyddu nifer yr anheddau fforddiadwy newydd a adeiledir yn y Sir.	Fel y nodwyd yn Adroddiad Adolygu'r CDLI (2017), mae Strategaeth Dwf y CDLI a chyflenwad tai'r farchnad a thai fforddiadwy yn methu ar y cyflenwad (mathemategol) gwael o anheddau. Cafodd targedau cyflenwi eu gosod ar sail ffigyrau 'Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd' Llywodraeth Cymru, y dangoswyd eu bod yn ffigyrau a oedd wedi eu gor-amcangyfrif yn fawr. Mae'r Strategaeth a Ffefrir (Mai 2023) ar gyfer y CDLI nesaf 2018 – 2033 yn nodi ffigwr blynyddol o 218 o unedau, o'i gymharu â 750 o unedau ar gyfer Cyfnod 3 yn y CDLI a fabwysiadwyd.  Fodd bynnag, dylid nodi bod y Cyngor yn cyflenwi tai fforddiadwy drwy nifer o ddulliau eraill heblaw am y CDLI. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, defnyddio grant tai cymdeithasol i roi cartrefi gwag mewn defnydd eto a gweithio gyda'n partneriaid tai.
CCC 10 – Diwallu anghenion Sipsiwn a Theithwyr.	Fe wnaeth y Cyngor Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ar 28 Mawrth 2017. Mae Asesiad newydd wedi ei baratoi a'i gymeradwyo gan y Cyngor. Cafodd ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ddiwedd 2021 ac mae'n parhau i ddisgwyl cael ei gymeradwyo.
CCC 6, CCC 8, CCC 9 – Cynnal a gwella bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi.	Cyflwynodd Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040 (2021) a Pholisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 11 (2021) newid mewn polisi cenedlaethol yn ymwneud â'r egwyddor o ddatblygu canol trefi, gan fynd i'r afael â'r dirywiad mewn defnydd manwerthu drwy gefnogi defnyddiau cyflenwol yn gryf. Mabwysiadwyd polisi lleol yn 2013, yn canolbwyntio'n bennaf ar amddiffyn manwerthu lle'r oedd cynnydd mewn defnydd nad oedd yn ddefnydd manwerthu yn cael ei ystyried yn annymunol.
CCC 5 – Cyflenwi'r Safle Strategol Allweddol.	Daeth caniatâd cynllunio amlinellol i ben ym mis Mawrth 2021.
CCC 7 – Tai Amlfeddiannaeth a Fflatiau Hunangynhwysol.	Rhoddwyd tri chaniatâd cynllunio ôl-weithredol ar gyfer creu Tai Amlfeddiannaeth ym Mehefin 2022.

## Adroddiad Monitro Blynyddol 2023

Polisi Lleol	Sylwadau
GEH 1 – Datblygiad amhriodol uniongyrchol oddi wrth y gorlifdir.	Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad hynod o fregus nad oedd yn bodloni holl brofion Nodyn Cyngor Technegol 15, yn groes i gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru.

# Adroddiad Monitro Blynyddol 2023

## Atodiad 1 – Perfformiad Polisi Lleol

Amcan CDLI 1: Poblogaeth a Chymuned

Polisi CDLI	Targed Polisi	Dangosydd	Lefel Sbarduno	Perfformiad	Sylwadau
BSC 1	Diwallu anghenion tai'r Sir	Nifer o dai newydd sy'n cael caniatâd cynllunio; Nifer y cartrefi newydd a gwblheir bob blwyddyn	Yn achos y ddau ddangosydd: Llai na 500 y flwyddyn am 3 blynedd olynol yng Nghyfnod 2 a llai na 750 y flwyddyn am 3 blynedd olynol yng Nghyfnod 3	Coch	Cyfnod monitro: 01/04/22 i 31/03/23  Nifer o dai y dyfarnwyd caniatâd cynllunio ar eu cyfer: 440 uned.  Nifer o dai a gwblhawyd: 256 uned.
BSC 1	Cynnal cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai	Heb ei fonitro eto	Llai na 5 mlynedd o gyflenwad tir tai	Heb ei fonitro eto	Cafodd y dangosydd ei ddisodli gan y gofyniad i gynnwys 'Taflwybr Tai' yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol (Gweler Llawlyfr y Cynllun Datblygu, Argraffiad 3).
BSC 2	Cynyddu nifer y safleoedd tir llwyd sydd ar gael ar gyfer eu datblygu	Nifer caniatâd cynllunio datblygiad newydd ar safleoedd tir llwyd	Gostyngiad islaw 60% ar gyfer tai a chyflogaeth (ac eithrio SSA Bodelwyddan)	Heb ei fonitro eto	Ni chasglwyd data.

## Adroddiad Monitro Blynyddol 2023

Polisi CDLI	Targed Polisi	Dangosydd	Lefel Sbarduno	Perfformiad	Sylwadau
BSC 4; BSC 8; BSC 9	Cynyddu nifer yr anheddau fforddiadwy newydd a adeiledir yn y Sir.	Nifer yr anheddau fforddiadwy newydd a ganiateir bob blwyddyn;  Nifer yr anheddau fforddiadwy newydd a gwblheir bob blwyddyn	Yn achos y ddau ddangosydd: Llai na 165 o anheddau fforddiadwy a ganiateir bob blwyddyn am 3 blynedd olynol yng Nghyfnod 2 a llai na 225 y flwyddyn am 3 blynedd olynol yng Nghyfnod 3	<b>Coch</b>	Nifer y tai fforddiadwy a gafodd ganiatâd cynllunio o fewn y 3 blynedd ddiwethaf:  2020 / 2021 – 169 uned; 2021 / 2022 – 113 uned; 2022 / 2023 – 118 uned.  Nifer y tai fforddiadwy a gwblhawyd o fewn y 3 blynedd ddiwethaf:  2020 / 2021 – 63 uned; 2021 / 2022 – 177 uned; 2022 / 2023 – 83 uned.



## Adroddiad Monitro Blynyddol 2023

Polisi CDLI	Targed Polisi	Dangosydd	Lefel Sbarduno	Perfformiad	Sylwadau
BSC 10	Diwallu anghenion sipsiwn a theithwyr	Heb ei fonitro eto	Lle adnabyddir angen am safle parhaol a/neu safle pontio ar gyfer Sir Ddinbych yn Asesiad Marchnad Dai Leol Gogledd-orllewin Cymru (LHMA). Bydd y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau cyffiniol i gychwyn chwilio am safle. Adnabyddir safle addas a rhoddir caniatâd cynllunio o fewn 18 mis o dderbyn LHMA Gogledd-orllewin Cymru, os bydd yn adnabod angen penodol	Coch	Gwnaeth y Cyngor Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ar 28 Mawrth 2017. Mae Asesiad newydd wedi ei baratoi a'i gymeradwyo gan y Cyngor, ac fe'i cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru fis Rhagfyr 2021. Mae ar hyn o bryd yn disgwyl i gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

# Adroddiad Monitro Blynyddol 2023

Amcanion CDLI 2 a 3: Economi a Swyddi

Polisi CDLI	Targed Polisi	Dangosydd	Lefel Sbarduno	Perfformiad	Sylwadau
PSE 2	Ar gyfartaledd, 4 hectar o dir cyflogaeth yn cael eu defnyddio bob blwyddyn	Faint o dir cyflogaeth newydd, mewn hectarau, sy'n cael caniatâd cynllunio	Llai na 3 hectar y flwyddyn am 3 blynedd olynol	Gwyrdd	Cyfanswm y Defnydd Dosbarth B - datblygiadau a gafodd ganiatâd cynllunio ar dir cyflogaeth dynodedig: 2020 / 2021 – 8 hectar; 2021 / 2022 – dim; 2022 / 2023 – 5.84 hectar.
PSE 1; PSE 3	Gwarchod tir rhag defnyddiau nad ydynt yn rhai cyflogaeth	Faint o dir cyflogaeth, mewn hectarau, a gollir i ddefnyddiau nad ydynt yn rhai cyflogaeth	Mwy na 5% yn cael ei gollu mewn gwrthdrawiad â Pholisi PSE 3 o gymharu â faint o dir cyflogaeth sydd ar gael, ym mlwyddyn mabwysiadu'r CDLI	Oren	Cyfanswm y tir cyflogaeth a gollwyd ers mabwysiadu'r CDLI ym Mehefin 2013: 7.96 hectar sy'n fwy na 5% o'r holl dir cyflogaeth oedd ar gael (113.17 hectar) yn 2013.

## Adroddiad Monitro Blynyddol 2023

Polisi CDLI	Targed Polisi	Dangosydd	Lefel Sbarduno	Perfformiad	Sylwadau
PSE 5	Helpu cynnal yr economi gwledig	Lefelau diweithdra	Cynnydd mewn lefelau diweithdra mewn ardaloedd gwledig 5% uwchlaw lefelau 2011	Heb ei fonitro eto	<p>Mae newidiadau yn sgil cyflwyno credyd cynhwysol yn golygu nad oes modd cymharu yn uniongyrchol â ffigyrau blaenorol lwfans ceisio gwaith.</p> <p>Canran y bobl yn Sir Ddinbych oedd yn hawlio credyd cynhwysol ym mis Mawrth 2023 oedd 3.5%.</p>

# Adroddiad Monitro Blynyddol 2023

## Amcan CDLI 4: Manwerthu

Polisi CDLI	Targed Polisi	Dangosydd	Lefel Sbarduno	Perfformiad	Sylwadau
PSE 6; PSE 9	Cyfeirio datblygiadau manwerthu newydd i ganol trefi presennol	Faint o le newydd mawr manwerthu, swyddfa a hamdden a ganiateir y tu allan i ganol trefi.	Caniatáu 1 datblygiad mawr manwerthu, swyddfa a hamdden y tu allan i ganol trefi yn groes i bolisi'r CDLI	Gwyrdd	Dim yn ystod y cyfnod monitro.
PSE 7	Bodloni'r angen mesurol am fanwerthu ac eithrio bwyd yn y Sir	Darparu arwynebedd llawr newydd manwerthu nad yw'n fwyd yn y Rhyl, Prestatyn a Dinbych	Dim prosiectau wedi eu cyflawni erbyn 2015	Gwyrdd	Agorodd Parc Manwerthu Prestatyn ym mis Mawrth 2013, ac agorodd Parc Manwerthu Dinbych yn 2017.
PSE 8	Cynnal cydbwysedd defnyddiau manwerthu ac eraill yng nghanol trefi	Nifer o siopau wedi eu colli oherwydd newid defnydd	Cynnydd 5% mewn defnydd ar wahân i fanwerthu mewn canol tref am 3 blynedd olynol	Oren	Fe all polisi lleol gael ei adolygu o ganlyniad i newid mewn polisi cenedlaethol yn ymwneud ag arallgyfeirio yng nghanol trefi.
PSE 6; PSE 8; PSE 9	Cynnal a gwella bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi	Nifer unedau manwerthu gwag yng nghanol trefi	Cyfradd unedau gwag o 15% neu fwy am 3 blynedd olynol	Coch	Mae yna bum canol tref yn Sir Ddinbych lle mae'r gyfradd o leoedd gwag yn uwch na 15%.

## Adroddiad Monitro Blynyddol 2023

Polisi CDLI	Targed Polisi	Dangosydd	Lefel Sbarduno	Perfformiad	Sylwadau
PSE 10	Gwarchod siopau a gwasanaethau lleol	Nifer siopau neu wasanaethau lleol a gollir oherwydd newid defnydd	Colli unrhyw siop neu wasanaeth lleol yn groes i'r polisi	Gwyrdd	Ni chollwyd unrhyw siop yn groes i bolisi lleol.

# Adroddiad Monitro Blynyddol 2023

## Amcan CDLI 5: Trafnidiaeth

Polisi CDLI	Targed Polisi	Dangosydd	Lefel Sbarduno	Perfformiad	Sylwadau
ASA 1	Darparu ar gyfer mynediad diogel i bob defnyddiwr, gan gynnwys beicwyr, cerddwyr i wasanaethau cyhoeddus, manwerthu a chyfleusterau cymunedol.	Nifer datblygiadau sy'n ymgorffori argymhellion a wnaed mewn asesiad trafndiaeth ac archwiliadau defnyddwyr di-fodur	Un datblygiad yn methu ymgorffori'r argymhellion mewn asesiad trafndiaeth ac archwiliadau defnyddwyr di-fodur	Gwyrdd	Ni ddechreuodd y Cyngor gymryd unrhyw gamau gorfodi oherwydd diffyg cydymffurfio / methu â chynnwys yr argymhellion a wnaed mewn asesiad cludiant a / neu archwiliadau defnyddwyr di-gerbyd mewn perthynas ag unrhyw gynnig cynllunio.
ASA 2	Defnyddio amodau cynllunio / cytundebau A106 i sicrhau gwella neu wneud cyfraniad i wella seilwaith trafndiaeth gyhoeddus, cerdded neu feicio sy'n debygol o gael eu hachosi gan ddatblygiadau newydd	Nifer datblygiadau newydd yn gwella neu'n gwneud cyfraniadau tuag at wella seilwaith trafndiaeth gyhoeddus, cerdded neu feicio trwy gyfrwng amodau cynllunio / cytundebau A106	Dim datblygiadau newydd yn gwneud cyfraniadau tuag at wella seilwaith trafndiaeth gyhoeddus, cerdded neu feicio trwy gyfrwng amodau cynllunio / cytundebau A106 ar ôl pedair blynedd	Gwyrdd	Sicrheir gwelliannau i isadeiledd cerdded neu feicio yn bennaf drwy ddefnyddio amodau cynllunio.  Nid oedd unrhyw gyfraniadau ariannol fel rhan o gytundeb Adran 106 yn 2022/2023.

## Adroddiad Monitro Blynyddol 2023

Polisi CDLI	Targed Polisi	Dangosydd	Lefel Sbarduno	Perfformiad	Sylwadau
ASA 3	Defnyddio safonau parcio uchaf mewn cynigion datblygu newydd yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Atodol perthnasol	Nifer datblygiadau newydd sy'n gwneud yn well na'r safonau parcio uchaf a nodir yn y Canllawiau Cynllunio Atodol perthnasol	Un datblygiad newydd yn methu â chydymffurfio â'r safonau parcio uchaf	Oren	Fe allai fod nifer cyfyngedig o eithriadau a roddwyd o ganlyniad i bryderon diogelwch neu ystyriaethau perthnasol eraill.
BSC 5	Darparu seilwaith ffyrdd newydd/gwella'r rhwydwaith ffyrdd presennol rhwng Cyffordd 26 yr A55 a Bodelwyddan – Ffordd Sarn	Hyd seilwaith ffyrdd newydd/gwaith gwella i'r rhwydwaith presennol rhwng Cyffordd 26 yr A55 a Bodelwyddan (Ffordd Sarn)	Dim seilwaith ffyrdd newydd/dim gwaith gwella i'r rhwydwaith presennol rhwng Cyffordd 26 yr A55 a Bodelwyddan (Ffordd Sarn) cyn meddiannaeth yr annedd cyntaf ar yr SSA.	Heb ei fonitro eto	Fe ddaeth y caniatâd cynllunio amlinellol i ddatblygu Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan i ben ym Mawrth 2021.

## Adroddiad Monitro Blynyddol 2023

Polisi CDLI	Targed Polisi	Dangosydd	Lefel Sbarduno	Perfformiad	Sylwadau
BSC 5	Gwella trafniadaeth gyhoeddus / mwy o gysylltiadau gwasanaeth bws rhwng Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan ac aneddiadau allweddol mewn trafodaeth â darparwyr gwasanaeth.	Amllder gwasanaethau bws yn cysylltu Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan ac aneddiadau allweddol fesul awr	Dim cynnydd yn amllder gwasanaethau bws yn cysylltu SSA Bodelwyddan ac aneddiadau allweddol yn unol â'r amserlen a gytunwyd gan ddatblygwyr a gweithredwyr	Heb ei fonitro eto	Fe ddaeth y caniatâd cynllunio amlinellol i ddatblygu Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan i ben ym Mawrth 2021.
BSC 5	Darparu llwybrau beicio a cherdded / cyfleusterau newydd fel rhan o SSA Bodelwyddan i roddi cysylltiad rhwng ardaloedd preswyl a chyflogaeth / cyfleusterau cymunedol	Nifer / hyd llwybrau beicio a cherdded newydd / cyfleusterau fel rhan o Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan	Dim llwybrau beicio a cherdded/cyfleusterau newydd cyn meddiannaeth yr annedd cyntaf ar y SSA	Heb ei fonitro eto	Fe ddaeth y caniatâd cynllunio amlinellol i ddatblygu Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan i ben ym Mawrth 2021.



# Adroddiad Monitro Blynyddol 2023

Amcan CDLI 7: Yr Iaith Gymraeg

Polisi CDLI	Targed Polisi	Dangosydd	Lefel Sbarduno	Perfformiad	Sylwadau
RD 5	Dim niwed arwyddocaol i'r cymeriad Cymreig neu gydbwysedd ieithyddol y gymuned	Canlyniadau Datganiadau Ieithyddol Cymunedol neu Asegiadau a gyflwynwyd	Unrhyw ddatblygiad a ganiateir lle mae Datganiad Ieithyddol Cymunedol neu Asegiad yn dod i'r casgliad y byddai'r cymeriad Cymreig neu'r iaith yn cael eu niweidio lle nad yw niwed o'r fath yn cael ei drechu gan ystyriaethau eraill.	Gwyrdd	Nid oedd y Cyngor yn caniatáu unrhyw ddatblygiad lle'r oedd y dogfennau ategol yn nodi niwed i'r Gymraeg neu i'r ddiwylliant Cymru.  Mae newidiadau a ddaeth yn Nodyn Cyngor Technegol 20 ar yr "Iaith Gymraeg" yn dileu'r angen i bob cais cynllunio gyflwyno Datganiad neu Asegiad Ieithyddol Cymunedol.
RD 5	Cynnydd mewn arwyddion Cymraeg neu ddwyieithog ac enwau lleoedd Cymraeg	Defnyddio arwyddion Cymraeg neu ddwyieithog a defnyddio enwau lleoedd Cymraeg ar ddatblygiadau newydd	Unrhyw ddatblygiad lle mae strydoedd neu fannau newydd yn cael eu creu heb gynnwys enwau Cymraeg neu arwyddion dwyieithog.	Gwyrdd	Mae'n groes i bolisi'r Cyngor i roi enw uniaith Saesneg ar strydoedd.

## Adroddiad Monitro Blynyddol 2023

Polisi CDLI	Targed Polisi	Dangosydd	Lefel Sbarduno	Perfformiad	Sylwadau
RD 5	Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas â'r iaith Gymraeg	Paratoi a mabwysiadu CCA	Mabwysiadu CCA o fewn 12 mis i fabwysiadu'r CDLI.	Gwyrdd	Mabwysiadwyd y Nodyn Canllaw Cynllunio Atodol ar 'Gynllunio a'r Iaith Gymraeg' ym mis Mawrth 2014.

## Adroddiad Monitro Blynyddol 2023

### Amcan CDLI 8: Mannau Agored Cyhoeddus

Polisi CDLI	Targed Polisi	Dangosydd	Lefel Sbarduno	Perfformiad	Sylwadau
BSC 11	Sicrhau bod datblygiadau newydd yn gwneud cyfraniad digonol i ddarpariaeth mannau agored cyhoeddus	Nifer o unedau a ganiateir lle caiff gofynion mannau agored eu bodloni	1 caniatâd cynllunio wedi ei roi lle nad yw gofynion mannau agored wedi eu bodloni, ac eithrio lle caiff ei gyfiawnhau yn unol â'r polisi	Gwyrdd	Caiff cyfraniadau Mannau Agored eu gwneud 'ar y safle' neu ar ffurf cyfraniad ariannol, yn dibynnu ar faint y datblygiad a'r ardal leol.
BSC 11	Gwarchod mannau agored a ddyrannwyd rhag datblygu	Faint o fannau agored a ddyrannwyd a gollwyd i ddatblygiad	1 caniatâd cynllunio wedi ei roddi i ddatblygu ar fan agored, ac eithrio lle caiff ei gyfiawnhau yn unol â'r polisi	Heb ei fonitro eto	Ni chasglwyd data.

# Adroddiad Monitro Blynyddol 2023

Amcan CDLI 9: Mwynau

Polisi CDLI	Targed Polisi	Dangosydd	Lefel Sbarduno	Perfformiad	Sylwadau
PSE 15	Gwarchod adnoddau mwynau ansawdd uchel, gan gynnwys carreg galch, tywod a graean, Carreg Grut Dinbych, adneuoedd igneaidd a folcanig rhag datblygiad a fyddai'n arwain at golled barhaol neu'n llesteirio echdynnu	Ardal o fwynau a gollwyd i ddatblygiad	Colli mwynau a adnabuwyd ac eithrio lle caiff ei gyfiawnhau yn unol â'r polisi	Gwyrdd	Nid oes unrhyw fwynau gwarchodedig wedi'u colli, ar wahân i lle'r oedd hynny wedi'i gyfiawnhau'n unol â'r polisi.
